Defnyddiodd dros 36,000 o bobl y wefan i ganfod rhagor am gyfleoedd i wirfoddoli yng Nghymru y llynedd, ac aeth 6,000 o'r rhain ymlaen i fod yn wirfoddolwyr.

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

Bu i nod barcusd ansawdd DU newydd ar gyfer mudladau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr ddenu un ar ddeg o grwpiau Cymreig cyn pen ychydig fisoeedd o'i lansio. Mae *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* yn cael ei reoli gan CGGC ar ran y corff dyfarnu, sef yr UKVF a'r nod yw gwella'r safonau ar gyfer gwirfoddolwyr drwy gydnabod sefydliadau sydd ag arferion a pholisïau gwirfoddoli da. Y grwp cyntaf i fodloni'r safon yng Nghymru oedd Newlink Wales.

Gwirfoddolwr y Flwyddyn

Mae ffoadur, a ysgogwyd i weddnewid ei fywyd yn dilyn ei waith gwirfoddol, wedi ennill gwobr genedlaethol am helpu eraill i wneud yr un fath.

Pan ddaeth Themba Moyo o Gaerdydd, i Gymru o Zimbabwe dair blynedd a hanner yn ôl, cysylltodd â Chyngor Ffoaduriaid Cymru sy'n darparu cymorth ymarferol a gweithgareddau cymdeithasol i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Heddiw, ef yw un o hoelion wyth Llais Ffoaduriaid Cymru, rhwydwaith o 42 o fudiadau cymunedol i ffoaduriaid. Mae hefyd yn Gadeirydd Cymdeithas Cefnogi Datblygiad Zimbabwe yng Nghymru.

Enillodd Themba y wobwr gyntaf yng nghategori oedolion y gwobrau - y cyfle blynyddol i gydnabod a gwobrwyo pobl sydd wedi gwneud cyfraniad aruthrol i'w cymuned. Rhedir y cynllun gan CGGC gyda chefnogaeth y Gronfa Loteri Fawr a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Derbynwyd cyfanswm o 186 o enwebiadau ar gyfer y gwobrau eleni. Ymhllith yr enwau a gyflwynwyd ceir hoelion wyth mudladau

Cyfranogaeth Cymru

Mae Cyfranogaeth Cymru, sef prosiect a fwriedir i gefnogi ac annog cymunedau ac unigolion i 'ddweud eu dweud', yn awr yn gweithio gyda Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf (CFSN) i hybu cyfranogaeth yn benodol yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r prosiect wedi gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth o gyfranogaeth ac i feithrin sgiliau a magu hyder pobl sy'n gweithio yn yr ardaloedd hyn. Cynigir hyfforddiant, cyngor a bwrsariau dan y gangen newydd hon o Gyfranogaeth Cymru.

Ymchwil

Bu CGGC yn gweithio gyda dau gyngor gwirfoddol sirol i edrych ar sut y mae'r sector gwirfoddol yn cysylltu gyda'r agenda lles, gofal cymdeithasol a iechyd ar gyfer eu hardal. Mewn un ardal, mae argymhellion o'r gwaith yn cael eu bwrw ymlaen gan is-grwp o'r bartneriaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles.



Gwobr
**Gwirfoddolwr
y Flwyddyn**
Cymru

Themba Moyo (uchod)
Adam Frobisher (isod)



Ymddiriedolaeth
Tyddyn Bach

gwirfoddol cenedlaethol neu leol, pobl sydd wrth wraidd prosiectau cymunedol - a phobl sydd rywsut, rywodd, yn dod o hyd i gymaint o wahanol fyrdod o helpu pobl eraill.

Enillydd y categori pobl ifanc oedd Adam Frobisher, a'r enillywr grwp oedd Ymddiriedolaeth Tyddyn Bach.

Gwahoddwyd yr enillywyr i seremoni wobrwyo yng ngofal Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mae Caerdydd. Yn ogystal â'r naw enillydd cenedlaethol, cafodd 56 o enwebeion o bob cwr o Gymru 'Ganmoliaeth Uchel' gan y panel beirniaid a byddant yn derbyn tystysgrif yn eu hardal leol yn ystod Wythnos y Gwirfoddolwyr.

5. Cynyddu cyfalaf cymdeithasol

Cynyddu cyfalaf cymdeithasol yw'r sail sylfaenol ar gyfer cymdeithas sifil gadarn. Mae CCGC wedi gweithio i adeiladu cyfalaf cymdeithasol:

Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf

Fel aelod o Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf, mae CCGC wedi lansio *Partner*, sef cylchlythyr argraffedig newydd ar gyfer aelodau Partneriaethau yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Ochr yn ochr a'r bwletin electronig misol, bwletin y buom yn ei gynhyrchu yn llwyddiannus ers tair blynedd, mae'n golygu y gallwn yn awr roi sylw i anghenion gwybodaeth aelodau'r byrddau partneriaeth, sefydliadau cymunedol a thrigolion gweithgar, yn ogystal â gweithwyr cyflogedig ac asiantaethau.

Trefnodd CCGC ddiwyddiad newydd arall ar gyfer CFSN, sef y gynhadledd 'llawr agored';

daeth 150 o gyfranogwyr i'r digwyddiad hwn i drafod materion, cyfleoedd a ffyrdd ymlaen ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf. Gan ddefnyddio technoleg llawr agored cafodd grwpiau trafod y gynhadledd eu trefnu, eu harwain a'u cofnodi gan y cyfranogwyr er mwyn adlewyrchu'n union y materion y teimlent gryfaf yn eu cylch - gyda'r bonws ychwanegol bod adroddiad y gynhadledd wedi cael ei wneud yn y fan a'r lle a chafodd pawb fynd â chopi gartref gydag nhw!



Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf

Noddir Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i bwriedir ar gyfer mudladau bach sydd dan arweiniad y gymuned yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru. Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf sy'n rheoli'r gronfa a CCGC sy'n ei gweinyddu ar ei ran. Ei diben yw cefnogi unrhyw fath o weithgaredd sy'n cynnwys pobl leol drwy gyfrwng mudladau cymunedol bach sy'n rhoi budd i'w cymuned. Rhaid i'r gweithgareddau roi rhyw gymaint o fudd economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol neu ddiwylliannol i'r bobl sy'n byw mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf. Yn ystod 2004-5, rhoddwyd £2,626,048 i'r Gronfa Ymddiriedolaeth a chefnogwyd 1,124 o brosiectau. Bwriedir i'r cynllun redeg hyd at fis Mawrth 2007.

'Bancwyr amser' ar waith...

Diolch i Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf, Banciau Amser y DU a Sefydliad Cymru dros Arian Cymunedol (WICC), mae



Rhymni wedi bywlogi drwyddi, gyda 18 o fudiadau gwirfoddol ac oddeutu 200 o wirfoddolwyr yn gweithio gyda'i gilydd.

Bu Bwrdd Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Rhymni yn helpu i grwpiau greu Banc Amser Cymunedol Rhymni gyda chefnogaeth £20,000 gan Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf - un o'r grantiau mwyaf a roddwyd erioed i brosiect. Mae'r Banc Amser yn gwobrwyo gwirfoddolwyr am eu hymroddiad, eu hamser a'u sgiliau drwy roi un 'credyd amser' am bob awr o waith gwirfoddol a roddir i'r gymuned. Gellir cyfnewid y credydau am driplu, gwobrau i grwpiau a gwersi gyrru - gyda'r olaf i'w weld yn hynod o boblogaidd gyda'r bobl ifanc!

Mae oddeutu 30 o bobl ifanc yn eu harddegau rhwng 16 a 19 oed wedi ennill credydau am gymryd rhan yn y ffonwm ieuencid lleol, am ddsbarthu'r cylchlythyr cymunedol, am gasglu sbwriel, am helpu i gynnal y parc lleol ac am ysgrifennu a chynhyrchu fideo addysgiadol am gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

Mae'r prosiect Banciau Amser yn ategu holl agweddau ar agenda Cymunedau yn Gyntaf, tra'n gwerthfawrogi ac yn cydnabod cyfraniad pobl leol yn y broses. Mae wedi cael effaith positif iawn ar nifer o wirfoddolwyr, yn enwedig pobl ifanc.



Lansio a sblasio - derbyniodd y Prosiect Anghenfil y Dŵr Anhygoel, a gydlynwyd gan Fforwm Datblygu Arcady, £9,885 gan y Gronfa Risg Gymdeithasol, ar gyfer costau staff a deunyddiau.

Nod y prosiect oedd annog a galluogi nifer sylweddol o bobl ar y cyron, o bob cefndir ac o bob lefel gallu, i ddod yn gyfranwyr pwysig at brosiect sifig o bwys yn Llandrindod. Mae cyfranwyr wedi dysgu sgiliau newydd a magu hyder ac, yn bwysicach na dim, o gofio lleoliad

tra chyhoeddus y darn gorfonedig a'i safon arbennig o uchel, maent wedi ymhyfydu yn eu llwyddiant. Cafwyd sylw cadarnhaol iawn yn y wasg ac ar y cyfryngau, a derbyniad gwresog gan y gymuned. Mae'r prosiect wedi cyflwyno achos grymus a deniadol dros agwedd uniongyrchol, ymarferol a chynhwysol tuag at adfywio cymunedol, ac mae aelodau etholedig Cyngor Sir Powys a Chyngor Tref Llandrindod wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i hynny.

Risg Gymdeithasol

Mae'r Gronfa Risg Gymdeithasol yn rhoddi grantiau o hyd at £10,000 i sefydliadau a grwpiau bach. Fe'i hariennir ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd. Y nod yw cefnogi'r broses o adfywio cymunedau ar draws Cymru drwy gefnogi sefydliadau a grwpiau bach i roi cynnig ar weithgareddau newydd a fwriedir i gynyddu sgiliau a brwydro yn erbyn allgaw cymdeithasol. Yn ystod 2004-2005 dyfarnwyd cyfanswm o £856,637 o grantiau, gan gynorthwyo sefydliadau gydag 89 o brosiectau. Bydd y cynllun yn darparu nawdd hyd at fis Tachwedd 2006.

Mynediad i Bawb

Rhoddodd y cynllun hwn £180,000 i 28 o grwpiau bach i wneud addasiadau i'w hadeilad bro er mwyn gwella mynediad a chyfleusterau i bobl anabl.

Camu 'mlaen

Mae cynllun grant Camu 'mlaen yn gynllun grant cyfalaf a ariennir yn rhannol gan Gomisïwn y Mileniwm. Mae wedi darparu £90,000 ar gyfer 11 derbynydd presennol dan y cynllun Cynnal: *Canolfannau Bro i'r Milflwydd* yng Nghymru er mwyn gwella eu cyfleusterau presennol, a thrwy hynny sicrhau bod Cynnal yn gadael yr etifeddiaeth orau bosib.

6. Eich annog i ddefnyddio adnoddau mewn modd cynaliadwy

Gall pob elfen o gymdeithas sifil weithredu'n gyfrifol tuag adnoddau'r ddaear a chymdeithasau eraill drwy'r dewis a wnânt fel defnyddwyr. Mae CGGC wedi cyfrannu at ddefnyddio adnoddau mewn modd cynaliadwy drwy:

Enfys

Nod Enfys yw creu rhagor o feysydd glas ac fe'i rheolir gan CGGC mewn partneriaeth ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Ymddiriedolaeth y Tywysog Cymru ac Amgylchedd Cymru. Yn ystod y cyfnod, cynyddodd rhaglen grantiau Enfys ei dyraniad grant £1,290,325 ymhellach i wythdeg a saith o brosiectau ym mhob rhan o Gymru, gan godi'r cyfanswm ar gyfer y rhaglen i £5.96m a 322 o brosiectau. Bwriadwyd i'r arian a oedd yn weddill gael ei ddsbarthu erbyn diwedd Gorffennaf 2005. Roedd y prosiectau cymeradwy o hyd yn amrywiol gyda chefnogaeth leol gref, o awdurdodau lleol yn gwneud datblygiadau pwysig i'r lôn las ar gyfer beiciau, i fudiadau cymunedol bach yn ariannu prosiectau gerddi, tiroedd gwlyb a choetiroedd.

Yn ystod eleni gwelwyd bod llawer o grwpiau yn dod yn ôl at Enfys am eu hail neu drydydd grant i adeiladu ar lwyddiant eu prosiectau cynharach. Bu Ffederasiwn Amgylcheddol Hen Golwyn yn arbennig o lwyddiannus, gyda phrosiect cymunedol Eglwys St Thomas, gardd synhwyraidd Wynn a gwelliannau i barc Min y Don oll yn cael canmoliaeth yn lleol. Bu i Farchnad Riverside Caerdydd hefyd ehangu gyda grant i gyfrannu at ddatblygu rhandiroedd cymunedol sydd yn cysylltu â'r farchnad ei hun, Rhwydwaith compostio cymunedol fforwm gwastraff Caerdydd a rhaglen addysg bwyd gymunedol y grwp.



Gardd gymunedol
Cymdeithas Gymunedol
Hubberstone

Prosiect cysylltiadau
Bwyd Riverside



Ffrydlan ac SRS

Buddsoddodd y rhaglen Ffrydlan grantiau o hyd at £300,000 mewn prosiectau a oedd â'r nod o gael cymunedau ledled Cymru i aildddefnyddio gwastraff, ailgylchu a chompostio. CCGC sydd wedi rheoli'r cynllun, gyda chefnogaeth oddi wrth Cylch - Rhwydwaith Ailgylchu Cymunedol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Gyda chronfa Ffrydlan wedi ei dyrannu yn llwyr i ugain o brosiectau ledled Cymru, mae'r tîm grantiau amgylcheddol yn awr yn gobeithio cynorthwyo llawer o'r prosiectau i gynllunio ar gyfer 'bywyd ar ôl grantiau' gan ystyried sut i fwrw eu prosiectau ymlaen o bosib fel egin-fentrau cymdeithasol.

Daeth y cynllun Ailgylchu Strategol i fodolaeth yn ystod y flwyddyn gyda chyfanswm o ddeuddeg o bartneriaethau sirol yn cael y dylarniad mwyaf erioed dros dro o £13.8m o arian Ewropeaidd (Amcan 1) a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r cynllun yn anodd dros ben, nid yn unig oherwydd maint anferthol a chymhlethdod y prosiectau eu hunain, ond hefyd oherwydd yr holl wahanol lefelau o waith partneriaeth y mae'r ymgeiswyr yn ceisio ymgynhyrdd atynt. Bu i un o lwyddiannau cyntaf y Cynllun, Newport Wastesavers, gwblhau ei ganolfan ailgylchu Ffrydlan y gwanwyn hwn, gan fynd ymlaen i ennill gwobr DU-gyfan am y gwaith ailgylchu penffordd gorau yng nghynhadledd flynyddol y Rhwydwaith Ailgylchu Cymunedol.

Dave Maggs, Prif Weithredwr Cynorthwyol CCGC, yn mynd i weld canolfan ailgylchu fodern newydd Wastesavers yng Nghasnewydd.





Cynllun Ailgyrchu Cymunedol Torfaen ar walth; mae datblygiadau mawr ar droed yn y seilwaith a'r gwasanaethau ailgyrchu yng Nghymru. Gan adeiladu ar lwyddiannau rhaglen Ffrydlan, mae'r Cynllun Ailgyrchu

Strategol £15.8m wedi cefnogi partneriaethau sy'n cynnwys awdurdodau lleol, cymunedau a phartneriaid o'r sector preifat, gyda'r nod o roi Cymru ar ben flordd i gyrraedd y lefelau ailgyrchu gorau ym Mhrydain.



7. Creu polisïau dan arweiniad defnyddwyr

Bellach, caiff cyfranogiad defnyddwyr (defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, a chymunedau lleol) ei dderbyn yn gyffredinol fel elfen hanfodol o ddatblygu polisïau. Mae CCGC wedi gweithio i gryfhau cyfranogiad defnyddwyr drwy gyfrwng:

Yn y llun uchod: 'Brighter Futures' yn cymryd rhan yn Niwmod Iechyd Meddwl y Byd, ar ystad Plas Madog ger Wrecsam.

Creu'r Cysylltiadau

Yn dilyn rhaglen o ddiwyddiadau ymgynghori ledled Cymru, rhoddodd CCGC ymateb cynhwysfawr i *Creu'r Cysylltiadau*, gweledigaeth y Cynulliad ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Roedd y sector yn croesawu pwyslais y Cynulliad ar ffordd o weithredu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ac ar gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol, ond roeddent eisiau cael manylion ynghylch â sut y gwreiddid hyn. O ganlyniad i'w ymgynghoriad ei hun, cyflwynodd CCGC nifer o gynigion, gan gynnwys rhoi llais i gynrychiolwyr dinasysyddion yn y broses o lunio penderfyniadau am wasanaethau cyhoeddus, yr angen am strategaeth ar gyfer eiriolaeth annibynnol, ehangu cyfraniad pobl leyg yn y gwaith o bennu safonau a gwasanaethau arolygu, ac annog mwy o wasanaethau gan grwpiau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol yn seiliedig ar gyfraniad cyhoeddus a chymunedol. Penodwyd CCGC i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog, a bydd yn parhau i gynnig awgrymiadau am fwy o wasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

Rhwydwaith ymchwil

Gweithiodd CCGC gyda nifer o sefydliadau'r sector cyhoeddus, mudiadau eiriolaeth cenedlaethol, academyddion o Fangor, Abertawe, Morgannwg a Chaerdydd a defnyddwyr gwasanaethau a grwpiau cleifion i wneud cais am nawdd ar gyfer rhwydwaith ymchwil i gleifion, defnyddwyr gwasanaethau, a chyfranogiad gofalwyr a'r cyhoedd mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Os bydd yn llwyddiannus byddai'r rhwydwaith yn cefnogi cynnwys pobl (cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr) i ddylunio, cynllunio, cynnal a lledaenu gwaith ymchwil sy'n berthnasol i bobl.

Cynllun Grant Iechyd Meddwl Lleol

Yn ystod 2004-2005 cyflwynodd y Cynllun Grant Iechyd Meddwl Lleol £2,060,000 i'r sector gwirfoddol i roi cefnogaeth i bobl â phroblemau iechyd meddwl, gyda phwyslais ar gynnwys defnyddwyr. Darparodd £1,960,000 i gefnogi 46 o sefydliadau i barhau i sicrhau gwasanaethau lleol a datblygiadau effeithiol ledled Cymru. Drwy ei gynllun grantiau bach darparodd £100,000 i grwpiau gwirfoddol ar gyfer gweithgareddau unwaith-ac-am-byth nad oedd arnynt angen cyllid cychol ar eu cyfer.

8. Hybu mentrau cymdeithasol

Mae mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn darparu amrywiaeth mawr o wasanaethau, ac maent eisoes yn cyflwyno llawer o wasanaethau cyhoeddus, ond gallent wneud rhagor drwy fabwysiadu dulliau gweithredu mentrau cymdeithasol. Mae CCGC wedi cynorthwyo i ddatblygu mentrau cymdeithasol/y modd y cyflwynir gwasanaethau drwy gyfrwng:

Fel aelod o bwyllgor gwaith mentrau cymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad, mae CCGC wedi cyfrannu at ddatblygiad ei Strategaeth Mentrau Cymdeithasol. Mae gweithgareddau CCGC eisoes yn cefnogi twf mentrau cymdeithasol newydd.

Marchnad Lafur Hanner-ffordd Gogledd Cymru

Mae Marchnad Lafur Hanner-ffordd CCGC bellach yn gweithredu ers tair blynedd yng ngogledd Cymru. Mae'r prosiect eisoes wedi rhagori ar y rhan fwyaf o'r targedau yr ymdrechai i'w cyrraedd, gyda thros flwyddyn lawn o nawdd yn dal ar gael ar y contract presennol.

Hyd yma mae'r prosiect:

- wedi cefnogi 1,097 o bobl economaidd-segur (gyda tharged gwreiddiol o 1,000)
- wedi ennill 2,074 o gymwysterau a gymeradwyr yn genedlaethol (gyda tharged gwreiddiol o 1,200)
- wedi cynorthwyo 570 o bobl i waith
- wedi rhoi nawdd a chefnogaeth i 27 o fentrau cymdeithasol yng ngogledd orllewin Cymru

Mae'r LMI yn brosiect Amcan 1 sy'n cefnogi unigolion a mentrau cymdeithasol newydd, fel ei gilydd, drwy ogledd orllewin Cymru. Mae'r pedwar awdurdod lleol Gwynedd, Ynys Môn, Sir Ddinbych a Chonwy, yn ogystal ag asiantaethau megis ELWa, WDA, Canolfan Byd Gwaith, Cyrfa Cymru, a Working Links, yn cefnogi, ac yn rhan-ariannu'r rhaglen.

Yn 2005 bu i'r LMI gyfranogi yn yr Wythnos Gyfogaeth Ewropeaidd ym Mrwsel, a chaiff ei defnyddio fel model ar gyfer strategaeth camu-i-mewn i'r farchnad lafur yn nifer o wledydd Ewrop.



Cronfa Buddsoddiadau Cymunedol

Bydd y Gronfa Buddsoddiadau Cymunedol (CIF) yn defnyddio dull newydd o hybu 'economi gymysg' o gyllid. Bydd yn creu pont rhwng yr hyn sydd ar gael yn awr i'r sector: grantiau a chronfeydd allweddol yn un pen, drwodd at fenthyciadau masnachol yn y pen arall. Bydd y prosiect hefyd yn cynorthwyo sefydliadau i fod yn 'barod i fuddsoddi' ac yna'n rhoi iddynt y cyfalaf a fydd yn eu helpu i ddatblygu llif incwm ymarferol i sicrhau eu dyfodol tymor hir. Mae £3 miliwn ar gael drwy gymysgedd o becynnau grant a benthyciadau i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Bydd CIF yn defnyddio arian Amcan 1, a bydd ar gael yn ystod 2006.



9. Atgyfnerthu cymdeithas sifil

Mae ar gymdeithas sifil ffyniannus angen sefydliadau sydd â'r sgiliau, yr adnoddau a'r cyfleusterau i lwyddo a datblygu mewn amgylchedd newidiol. Mae ein gwaith i atgyfnerthu cymdeithas sifil yn cynnwys:



Uned Cofnodion Troseddol - yn helpu i amddifyn plant ac oedolion agored i niwed yng Nghymru

Lein Gymorth

Gwelwyd cynnydd o 17 y cant yn nifer yr ymholiadau i'r Lein Gymorth eleni, i 10,454. Canfu archwiliad allanol fod dros 90 y cant o'r cwsmeriaid yn teimlo bod gwasanaeth y Lein Gymorth yn dda neu'n ardderchog. Mae'r galw am chwiliadau ChwilGrant, gwybodaeth am gyllid a chodi arian hefyd wedi cynyddu, gan adlewyrchu cais parhaus sefydliadau bach a mawr am arian.

Bu Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol CCGC yn helpu tîm y Lein Gymorth, gan ymateb i amrywiol ymholiadau cymhleth oddi wrth ymddiriedolwyr a rheolwyr y sector gwirfoddol. Croesawodd y sector ail gynhadledd Deddf Elusennau Cymru, a bwriedir cynnal rhagor o gynadleddau a seminarau ar agweddau ar reoliadau elusennau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae Lein Gymorth CCGC helyd yn rhedeg Lein Gymorth Cymunedau yn Gyntaf (0800 587 8898) ar ran Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf. Cafwyd dros 2,400 o ymholiadau, ac arfonwyd yr e-fwletin Cymunedau yn Gyntaf misol at 1,200.


www.cggc.org.uk

Mae'r defnydd a wna'r sector o adnoddau'r rhyngwyd yn dal i dyfu: y flwyddyn diwethaf cafodd gwefan CCGC brion 190,000 o ymwelwyr gyda 15,158 o ddogfennau yn cael eu llwytho i lawr.

Uned Cofnodion Troseddol (CRU)

Yn ystod y flwyddyn bu i'r CRU gynghori a delio gyda thros 6,700 o archwiliadau cofnodion troseddol. Ymunodd 540 o fudiadau gwirfoddol i ddefnyddio'r gwasanaeth. Mae'r Uned wedi helpu i gynghori mudiadau gwirfoddol mawr - megis Cymdeithas Pêl-droed Cymru, a bach - Theatr Fach y Rhyl, a grwp celfyddydau perfformio gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Ni waeth beth yw maint unrhyw grwp gwirfoddol, mae'r Uned wedi rhoi help a chefnogaeth amhrisiadwy i'r sector fel rhan o broses recriwtio fwy diogel a gwell amddiffyniad ar gyfer plant ac oedolion agored i niwed fel ei gilydd.

Lleolir rhan prosesu swyddfa'r CRU ym Mae Colwyn, ond mae'r uned yn falch iawn o allu cynnig gwasanaeth hyfforddi a chynghori unigryw drwy ei swyddogion cyswllt teithiol. Ym mis Hydref 2004, cafodd y CRU adroddiad sicrwydd eithriadol oddi wrth y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Tynnwyd sylw yn arbennig at y gwasanaeth a lefel y wybodaeth. Mae'r Uned wedi adeiladu ar y rôl strategol a'r arbenigedd hwn, a chwaraea ran weithgar yn y sector gwirfoddol ac yn y gweithgor cymunedol fel rhan o broses ymgynghori genedlaethol y CRB.





Bydd y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i reoli gwirfoddolwyr yn helpu i unigolion gyrraedd nodau proffesiynol a phersonol. Yn y llun y mae gwirfoddolwyr o'r Community House Café, Wrecsam. Mae'r caffi yn gweini prydau am bris rhesymol ac yn cynnal nosweithiau coginio i bobl ifanc. Enillodd y prosiect wobwr i gwrplu yng Ngwobr Gwirfoddolwyr y Flwyddyn Cymru 2005.

Hyfforddiant

Yn ystod 2004 - 5 crewyd Canolbwynt Gweithlu Sector Gwirfoddol y DU. CGGC a fydd yn cynnal y Canolbwynt yng Nghymru a'i rôl yw ffurfio perthnasau gwaith effeithiol rhwng y Rhwydwaith Sgiliau i Fusnesau a sefydliadau sector gwirfoddol Cymru a'r DU. Ei nod yw hybu datblygiad sgiliau ac arferion cyflogaeth da, er mwyn cefnogi'r broses o recriwtio, cadw a datblygu staff, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr ac aelodau bwrdd neu bwyllgorau yn y sector gwirfoddol.

Datblygwyd y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i reoli gwirfoddolwyr fel rhan o raglen waith y DU. Mae'r safonau yn rhoi sylw i faterion megis datblygu polisiau, hybu gwirfoddoli, recriwtio a sefydlu, rheoli, datblygu a chefnogi gwirfoddolwyr a byddant yn dal i gael eu defnyddio i helpu i unigolion gyrraedd nodau proffesiynol a phersonol a gwella eu sgiliau rheoli yn unol â safon gymeradwy.

Cynhaliwyd y rhaglen Swyn Mentora am yr ail waith a chanolbwyntiodd ar feithrin sgiliau rheolwyr yn y sector gwirfoddol yng Nghymru. Mynychodd y mentoriaid gwrs hyfforddi deuddydd cyn cael eu paru gydag unigolion i'w mentora a chydweithio ar amcanion a nodau y cytunwyd arnynt am gyfnod o chwe mis.

Bu CGGC yn rheoli prosiect a noddwyd gan ELWa a ymchwiliat i e-ddysgu. Ei nodau oedd pwyso a mesur faint y mae darparwyr dysgu'r sector gwirfoddol yn ymwybodol o e-ddysgu a faint y maent yn ei ddefnyddio arno, canfod partneriaid sy'n cefnogi dysgu yn y sector gwirfoddol, a thynnu sylw at rwystrau sy'n effeithio ar allu'r sector i fanteisio ar e-ddysgu. Daw'r prosiect i ben ym mis Medi 2005 a bydd canlyniadau'r gwaith ymchwil ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mae cyflwyno cysiaiu hyfforddiant i'r sector gwirfoddol yng Nghymru yn dal yn rhan allweddol o'n gweithgareddau. Bu i CGGC gynnal 71 o gysiaiu, gyda 650 o gyfranogwyr, gyda'r ffurflenni gwerthuso yn cofnodi bod 94 y cant o'r cyfranogwyr yn credu bod y cysiaiu yn ardderchog neu'n dda.

'Roedd gwybodaeth ddefnyddiol i'w chael ym mhob sesiwn ac o'r herwydd roedd y seminar yn gwbl werth chweil'

'Roedd y cyflwyniadau wedi taro'r nodyn iawn - heb fod yn rhy sylfaenol nac yn rhy academaidd'

'Mae angen rhagor o siaradwyr fel hyn! Roedd yn ddiddorol iawn gwrando arnynt ac yn hawdd derbyn a deall y wybodaeth'

'Mae hwn yn wirioneddol ddefnyddiol ac yn union beth oedd angen, diolch i chi am fynd i'r fath drafferth.'

Ymddiriedolaeth Cyfryngau Cymru

Drwy ddefnyddio hyfforddwywr proffesiynol a gweithwyr proffesiynol yn y maes cyfathrebu, mae Ymddiriedolaeth Cyfryngau Cymru wedi dal i gynnis help ymarferol, cyngor a gwybodaeth o safon i elusennau ar draws Cymru. Cafodd 400 a mwy o sefydliadau help i godi eu profiil a meithrin eu perthynas gyda'r cyfryngau lleol a chynulleidfaoedd allweddol eraill. Cynhaliwyd cynhadledd lwyddiannus - BBC a'r sector gwirfoddol - gweithiwn gyda'n gilydd! ym mis Ionawr 2005.




Cyhoeddiadau

Mae *Rhwydwaith Cymru* yn dal i fynd o nerth i nerth ac amcangyfrifir bellach fod ganddo 8,800 o ddarllenwyr. Ymysg yr erthyglau a gynhwyswyd y mae'r newidiadau i arian y Loteri, ymgynghoriadau'r Cynulliad, gwobrau Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf, cynlluniau gwirfoddoli a 'sylw ar yr aelodau'. Mae'r e-hysbys electronig a gyhoeddir bob pythefnos yn dal yn boblogaidd, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am nawdd, cyhoeddiadau, hyfforddiant a newyddion cyffredinol i'r sector.

Aelodaeth

Gwelwyd cynnydd iach yn nifer yr aelodau eleni, i fyny 34 y cant o 1,300 i 1,750. Mae'r categori aelodaeth newydd - e-aelodau - wedi bod yn boblogaidd iawn gyda grwpiau lleol. Drwy ehangu ein haelodaeth gall CGGC helpu mwy fyt h o fudiadau gwirfoddol ledled Cymru, yn enwedig y sefydliadau llai hynny sydd ag ond ychydig o staff ac adnoddau, neu ddim o gwbl. Mae ein e-aelodau yn cael y diweddaraf am nawdd a gwybodaeth yn rhad ac am ddim. Mae mwy a mwy o aelodau yn manteisio ar gynlluniau cyswllt ar gyfer telegyfathrebu, yswiriant, meddalwedd, cyfieithiadau Cymraeg, lleoliadau cynadledda ac eitemau hyrwyddo.

'Rydym yn ddiolchgar dros ben i CGGC am lif cyson o gyngor defnyddiol, lle ardderchog i gynnal cyfarfodydd, a llawer mwy at hynny.'
THE GATEWAY GARDENS TRUST,
PWLLHELI



'Diolch yn fawr iawn i chi am ymateb mor brydlon i fy ymholiadau, gan roi gwybodaeth fanwl a defnyddiol. Gwerthfawrogir eich gwasanaeth a'ch amser.' AGE CONCERN CEREDIGION

Sbardun

Cafodd Sbardun, sef canolfan gweithredu gwirfoddol yr Eisteddfoda reolir gan CCGC, ei hagar yn swyddogol gan gyn Arweinydd Plaid Cymru Dafydd Wigley. Bu i'r cyn-AS ac AC lansio rhaglen o sgysiau, dadl ac arddangosfeydd yn darlunio sector gwirfoddol Cymru yn ei holl amrywiaeth.

Cafwyd gwledd ffasiynol o ddillad o ffynonellau moesegol ym mhafiliwn Sbardun, wrth i

fyfyrwyr o Goleg Menai arddangos eu gwaith ochr yn ochr â dillad o ddrwy siop masnachu teg yng Nghaerdydd a Llandudno.

Gweithiodd CCGC gyda staff a gwirfoddolwyr ymgyrch Oxfam Cymru i ddangos y gellir cefnogi masnachu teg drwy gyfrwng ffasiwn yn ogystal â thrwy ffyrdd mwy sefydledig megis drwy fywd a diod.



Yn ystod yr wythnos, bu'r eisteddfodwyr yn gwrandao ar amrywiol sgysiau, dadleuon a chyflwyniadau: gan Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru ar dai fforddiadwy; cyflwyniad o'r enw Adfer Tlysau'r Goron yng Nghymru gan Amgueddfa Werin Cymru a Gorsedd y Beirdd; a thrafodaeth ar Rhown Derfyn ar Dlodï gan Oxfam Cymru. Ymysg y sefydliadau a oedd yn arddangos yr oedd Cynllun Estyn Llaw, sy'n gweithio gyda swyddfeydd gwirfoddoli lleol i geisio denu rhagor o wirfoddolwyr Cymraeg i weithio gyda nhw; RNID Cymru; Rhwydwaith Cymunedol; Cymdeithas y Byddar Cymru; Awstisiaeth Cymru; Cruse - Gofal mewn Galar a Sefydliad y Merched.



Dafydd Wigley a Graham Benfield

Cynllun Gwasanaeth Gwirfoddol Lleol

Drwy gyfrwng y cynllun Gwasanaeth Gwirfoddol Lleol a weinyddwyd ar ran Llywodraeth y Cynulliad, mae CCGC wedi darparu cyllid craidd o dros £2.6m i'r pedwar ar bymtheg cyngor gwirfoddol sirol yng Nghymru. Mae hefyd wedi cydlynu prosiectau consortia, gan ymestyn gweithgareddau datblygu potensial y cyngorau gwirfoddol sirol yn ardaloedd Amcan 1 ac Amcan 3. Gydag aelodaeth o 6,300 o grwpiau, a chyswilt gyda llawer yn rhagor drwy eu rhwydweithiau lleol, mae'r cyngorau gwirfoddol sirol yn chwarae rôl holl bwysig yn cefnogi a chynrychioli buddiannau gweithgareddau'r sector gwirfoddol lleol. Mae CCGC wedi dal i weithio'n agos gyda'r cyngorau gwirfoddol sirol i roi cyhoeddusrwydd i gynllun y sector gwirfoddol a materion polisi sydd o ddiddordeb i grwpiau lleol a threfnu'r rhaglen o ddigwyddiadau polisi rhanbarthol.



Ymchwil

Mae CCGC yn cynhyrchu nifer o adroddiadau ymchwil sy'n archwilio'r sector gwirfoddol ym mhob awdurodd lleol. Mae arweinydd lleol y sector gwirfoddol wedi defnyddio'r adroddiadau hyn i esbonio pwysigrwydd y sector i'r economi lleol, i gyflloqaeth ac i gytlyniant cymdeithasol cymunedau. Buont yn ddefnyddiol dros ben mewn trafodaethau gyda sefydliadau partner a phwyllgorau cyswilt.

10. Adnoddau cymdeithas sifil

Mae'r gymdeithas sifil yn cynhyrchu llawer mwy o incwm oddi wrth y cyhoedd ac oddi wrth gyrrff elusennol a phreifat nag y mae'n ei gael oddi wrth ffynonellau cyhoeddus. Ond eto, mae cyllid tymor byr, ansicr a cheisio cyllid yn dal yn broblem fawr i lawer o sefydliadau. Mae CGGC wedi helpu drwy:



Arian ar gyfer y sector

Mae diogelu a chynyddu'r arian sydd ar gael i'r sector yn dal yn un o ymrwymidiadau allweddol CGGC. Cynyddodd cyfanswm y grant bron 100 y cant o £18.8m y llynedd i £37.15m eleni. Roedd y cynnydd hwn yn bennaf yn ymwneud ag effaith y Cynllun Ailgychu Strategol, cynllun a wnaeth ddyfarniadau dros dro o £13.8m. Dyfarnwyd 1,878 o grantiau i gyd.

Arian Loteri

Eleni, cafodd y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol eu huno a chrëwyd corff dosbarthu newydd - y Gronfa Loteri Fawr. Bu i'r corff dosbarthu newydd hwn, sydd bellach yn gyfrifol am ddyrannu 50 y cant o arian y loteri, gynnal dau ymgynghoriad am ei strwythur i'r dyfodol a'i fframwaith cyllid. Cyfrannodd dros 200 o sefydliadau mewn digwyddiadau dan ofal CGGC i ystyried yr ymgynghoriadau hyn, a bu iddynt ddweud yn bendant y dylid gwarchod lefel y gefnogaeth a roddai'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd i'r sector. Cafwyd neges bendant bod arnynt eisiau i'r corff dosbarthu newydd achub ar y cyfle i atgyfnerthu ei annibyniaeth oddi wrth y llywodraeth a chadarnhau'r egwyddor 'ychwanegoldeb'.

Galwodd CGGC ar i'r corff dosbarthu ddangos ei fod wedi gwrandao ar salbwyntiau'r sector drwy sefydlu rhaglenni nawdd newydd a fyddai'n gallu cefnogi amrywiaeth mawr o weithgareddau a galluogi i syniadau am brosiectau, sy'n deillio o'r cymunedau, gael eu gwreiddu. Bydd y ffordd y datblygir ac y cyflwynir rhaglenni y Gronfa Loteri Fawr yn dal i fod yn holl bwysig i'r sector. Mae'r un peth yn wir am sicrhau bod y Gronfa Loteri Fawr yn cyflawni ei hymrwymiad i ddyrannu 60-70 y

cant neu ragor o'i chyllid i fudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol.

Ewrop

Mae Uned Cefnogi'r Sector Gwirfoddol, a sefydlwyd yn 2001 i helpu mudiadau gwirfoddol a chymunedol i gael gafael ar arian Amcan 1, bellach wedi symud i'w ail gam - darparu ôl-ofal - sef rheoli prosiectau Amcan 1 yn llwyddiannus ac yn effeithiol. Mae CGGC wedi gwneud pecynnau rheoli prosiectau sydd wedi eu teilwrio'n arbennig ar gyfer anghenion y sector, ynghyd â thafenni gwybodaeth ychwanegol. Yn ystod y flwyddyn ymwelwyd â www.wcva.org.uk/europe dros 14,400 gwaith, gyda thros 900 o sefydliadau wedi eu cofrestru ar y safle. Rydym wedi dosbarthu 2,700 a mwy o dafenni gwybodaeth ar arian Ewropeidd ac Amcan 1, wedi cynhyrchu a dosbarthu dros 3000 CD ROM rhyngweithiol i ymgeiswyr, wedi rhoi cyngor arbenigol i dros 500 o ymholiadau, wedi cyfarfod gyda thros 175 o sefydliadau i roi cyngor arbenigol wyneb-wrth-wyneb, wedi cyflwyno dros 30 o ddigwyddiadau hyfforddiant arweiniol deuddydd ar ESF ac ERDF, wedi gweithio gyda sefydliadau partner i gyflwyno dros 30 o gyflwyniadau, ac ar hyn o bryd mae gennym dros 100 o fersiynau wedi eu gwella o'r ffeiliau rheoli prosiectau. Yn dilyn llwyddiant gwasanaeth Amcan 1, gall sefydliadau o Ddwyrain Cymru yn awr gael yr un gwasanaethau ôl-ofal fel rhan o raglenni Amcan 2 a 3.





Mae gwaith gwella amgylcheddol yn y man tawel hwn wedi rhoi lle i Gymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Cwmcelyn ym Mlaenau Gwent ar restr fer Gwobrau clodfawr y Loteri Genedlaethol. Bu'r grwp yn

adnewyddu'r llwybrau, yn adnewyddu'r hen bont sy'n croesi'r llyn, ac yn plannu llwyni, coed a bylbiau o'i amgylch. Derbyniwyd y Gymdeithas arian oddi wrth Enfys.

Ymddiriedolwyr CGGC

Tom Jones, OBE	Cadeirydd
Eurwen E Edwards, BEM	Is-gadeirydd
Margaret Jervis, MBE	Is-gadeirydd
Douglas E. Morris	Trysorydd Mygedol
<hr/>	
Christine Ashford	Kids4Kidz
Lydia Bassett	Celfyddydau Gwirfoddol Cymru
Dr. Neil Caldwell	Unigolyn
Phil Davies	Cymdeithas Alzheimers
Walter Dickie	Unigolyn
David G. Evans	Unigolyn
Catrin Fletcher	Cefnogaeth Gartref Cymru
Nerys Hughes, MBE	Unigolyn
Kate Jones	RSPCA (i Rhagfyr 2004)
Tom Jones	Grŵp Mynediad Sir Conwy
Tejay de Kretser	Cymdeithas Cynghorau Gwirfoddol Sirol Cymru
Mike Lewis	Sefydliad Lloyds TSB dros Loegr a Chymru
Ruth Marks	Chwarae Teg
David Murray	Age Concern Gwent
Jane Pagler	Unigolyn
Martyn Pengilley	Cynghrair Henoed Cymru
Graham Price	Cymdeithas Addysg y Gweithwyr
John Puzey	Fforwm Tai Cymru
Julian Richards	Gweini
Barbara Roberts	Cymorth i Ddiodefwyr Sir y Fflint
Jaswant Singh, MBE	Race Equality First
L. Mair Stephens	Cynulliad Merched Cymru
Dr. Tim Stowe	Cwlwm Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt Cymru
Fran Targett	Cyngor ar Bopeth
Jon Townley	Oxfam Cymru (i Rhagfyr 2004)
Derek Walker	LGB Forum Cymru (i Rhagfyr 2004)
Catriona Williams	Plant yng Nghymru
Mal Williams	Cylch
Michael Williams	Grŵp Tai Gwalla
Wendy Williams, MBE	Cymdeithas Chwaraeon Cymru
Veronica Wilson	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Pobl Ifanc Cymru
Pauline Young	Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro

Arslylydd

Win Griffiths Cadeirydd Cysgodol

Unigolyn

Margaret Thorne, OBE, DL

Cymdeithas Cynghorau Gwirfoddol Sirol Cymru

Derek Walker

TUC Cymru

Dwyochrog

Stuart Etherington

Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Mudiadau Gwirfoddol

Ymgynghorydd Cyfreithiol

Hanif Bhamjee, OBE

Crowley a'r Cwmni

Ymgynghorydd Ariannol

Chad Patel

Archwilwyr

Deloitte & Touche LLP

Banc

Barclays Bank plc

Ysgrifennydd y Cwmni

Jan Bish

Hoffai CGGC ddiolch i'r canlynol am eu cefnogaeth:

Asiantaeth Datblygu Cymru

Employment Zone/Cyswllt Gwaith

Canolfan Gydwethredol Cymru

Four Nations

Comisiwn y Mileniwm

Gyrfaoedd Cymru

Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Interlink

Cronfa Loteri Fawr

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cronfeydd Strwythurol Ewrop

Sefydliad Cymorth i Elusennau

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Sefydliad Lloyds TSB ar gyfer Cymru a Lloegr

Cyngor Sir Ddinbych

Volunteering England

Cyngor Sir Gwynedd

Working Links

Cyngor Sir Ynys Môn

Yr Ymddiriedolaeth Cyfryngau

ELWa

Crynodeb o'r mantolenni ariannol

Mae'r datganiadau ariannol cryno hyn yn grynodeb o wybodaeth a godwyd o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon statudol. Mae'n bosib nad ydynt yn cynnwys digon o wybodaeth i roi dealltwriaeth lawn o sefyllfa ariannol yr elusen. Am wybodaeth bellach dylid edrych ar y cyfrifon llawn am y flwyddyn, adroddiad yr archwiliwr ar y cyfrifon hynny ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Gellir cael copïau o'r rhain gan SJ Bish, Ysgrifennydd y Cwmni.

Cymeradwywyd y cyfrifon blynyddol ar 6 Hydref 2005 ac fe'u cyflwynwyd i'r Comisiwn Elusennau a'r Cofrestrwydd Cwmnïau. Archwiliwyd y cyfrifon gan archwiliwr cymwys, Deloitte & Touche LLP a roddodd farn ddiamed, heb gynnwys datganiad, fel sy'n ofynnol dan adran 237 (2) a (3) Deddf Cwmnïau 1985.

Mantolen o weithgarwch ariannol

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005

	Cronfeydd	Cronfeydd	Cyfanswm Cronfeydd	Total Funds Cronfeydd
	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	2005	2004
	£	£	£	£
Derbyniadau				
Rhoddion	-	151,233	151,233	77,100
Gweithgareddau i ymestyn gweithgareddau'r elusen				
Grantiau	929,897	28,326,250	29,256,147	24,848,356
Tanysgrifiadau	32,294	-	32,294	33,763
Incwm arall	1,431,013	355,877	1,786,890	1,660,639
Incwm buddsoddiadau	45,834	258,566	304,400	147,094
Cyfanswm derbyniadau	2,439,038	29,091,926	31,530,964	26,766,952
Gwariant				
Costau gweithgareddau i ymestyn gweithgareddau'r elusen				
Grantiau	-	14,813,183	14,813,183	18,814,631
Eraill	2,077,789	7,120,651	9,198,440	8,150,141
Rheoli a gweinyddu	283,855	19,749	303,604	327,472
Cyfanswm a wariwyd	2,361,644	21,953,583	24,315,227	27,292,244
Mewnolion/ (allion)				
net am y flwyddyn	77,394	7,138,343	7,215,737	(525,292)
Trosgrwyddiadau rhwng cronfeydd	64,000	(64,000)	-	-
	141,394	7,074,343	7,215,737	(525,292)
(Colledion) / enillion heb eu gwiroddu ar fuddsoddiadau	10,250	-	10,250	4,915
Symudiad net mewn cronfeydd	151,644	7,074,343	7,225,987	(520,377)
Balansau a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2004	1,405,792	2,356,041	3,761,833	4,282,210
Balansau a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2005	1,557,436	9,430,384	10,987,820	3,761,833



Enillion (Cronfeydd anghyfyngedig)

Incwm elusennol arall	£1,431,013	58.70%
Grantiau a dderbyniwyd	£929,897	38.10%
Incwm buddsoddiadau	£45,834	1.90%
Tanysgrifiadau	£32,294	1.30%
	£2,439,038	100.00%



Enillion (Cronfeydd cyfyngedig)

Grantiau	£28,326,250	97.40%
Gwariant a adenilwyd a manion	£355,877	1.20%
Llog ac incwm buddsoddiadau	£258,566	0.90%
Tanysgrifiadau a rhoddion	£151,233	0.50%
	£29,091,926	100.00%



Gwariant (Cronfeydd anghyfyngedig)

Costau elusennol arall	£2,077,789	88.00%
Rheoli a gweinyddu	£283,855	12.00%
	£2,361,644	100.00%



Gwariant (Cyfyngedig)

Grantiau	£14,813,183	67.50%
Elusennol uniongyrchol	£7,120,651	32.40%
Rheoli a gweinyddu	£19,749	0.10%
	£21,953,583	100.00%

Mantolen ar 31 Mawrth 2005

	2005		2004	
	£	£	£	£
Asedau Sefydlog		1,237,466		1,141,058
Asedau Cyfredol				
Buddsoddiadau	91,434		81,184	
Dyledwyr a rhagdaliadau		70,002		45,626
Arian yn y banc ac mewn llaw	10,355,294		3,367,557	
	<u>10,516,730</u>		<u>3,494,367</u>	
Credydwyr: symiau yn ddyledus do fewn blwyddyn	(766,376)		(873,592)	
Asedau cyfredol net		9,750,354		2,620,775
Asedau net		10,987,820		3,761,833
Cronfeydd				
Cronfeydd cyfyngedig - mewn gwarged	9,982,642		2,550,531	
Cronfeydd cyfyngedig - balansau dyledus	(552,258)		(194,490)	
Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig		9,430,384		2,356,041
Cronfeydd heb gyfyngiad - cyffredin	1,225,436		1,031,792	
Cronfeydd heb gyfyngiad - penodedig	322,000		374,000	
Cronfa gadw ailbriso		1,557,436		1,405,792
		<u>10,987,820</u>		<u>3,761,833</u>

Datganiad archwilwyr annibynnol i ymddiriedolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Rydym wedi archwilio'r datganiadau ariannol cryno ar dudalennau 26 i 28 sy'n gyfrifon anstatudol a baratowyd er mwyn eu cynnwys yn Adolygiad Blynyddol yr elusen.

Mae'r datganiad hwn wedi ei baratoi'n benodol ar gyfer ymddiriedolwyr yr elusen, fel corff, yn unol a thererau ein llythyr derbyn dyddiedig 13 Mehefin 2005. Gwnaethpwyd y gwaith hwn er mwyn ein galluogi i ddatgan yn yr adroddiad y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu gwneud yn ôl telerau derbyn y gwaith ac i ddim diben arall. I'r graddau hynny a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb dros unrhyw un heblaw'r elusen ac ymddiriedolwyr yr elusen, fel corff, am ein gwaith, am y datganiad hwn, na'r casgliadau a fynegir.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r archwilwyr, y naill a'r llall

Mae'r bwrdd yn gyfrifol fel ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr am baratoi'r datganiadau ariannol cryno. Rydym wedi cytuno i adrodd i chi, yr ymddiriedolwyr, ynghylch eu cysonder

â'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon statudol, ac fe adroddwyd ar hynny ar 6 Hydref 2005. Rydym hefyd wedi darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn y datganiadau ariannol cryno ac yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os ydym yn dod yn ymwybodol o unrhyw gam-ddatganiadau materol gyda'r datganiadau ariannol cryno.

Sail ein barn

Rydym wedi gweithredu'r trefniadau yr ydym yn credu sy'n angenrheidiol er mwyn canfod a yw'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon statudol sy'n sail i'w paratoi.

Barn

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2005.

Deloitte & Touche LLP
Cyfrifwyr Siartredig
Ty Blenheim, Llys Fitzalan
Caerdydd CF24 0TS
6 Hydref 2005